

Ein Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau

Helpwch i drechu canser ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

cruk.org/will-writing

CANCER RESEARCH UK

Gyda'n gilydd rydym yn curo canser

Sut mae ein Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau yn gweithio

Defnyddiwch un o'n partneriaid cyfreithiol dibynadwy i ysgrifennu Ewyllys syml, a byddwn ni'n talu'r bil. Gobeithiwn, yn gyfnewid, y byddwch yn dewis gadael rhodd yn eich Ewyllys i Cancer Research UK, fel y gallwn barhau i achub a gwella bywydau drwy ymchwil i ganser, gwybodaeth a dylanwad. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwneud hynny. Mewn gwirionedd, mae traean o'r arian a godwn i drechu canser yn dod o roddion mewn Ewyllysiau.

Mae'r gwasanaeth yn syml ac yn hawdd ei ddefnyddio. Gall unrhyw un 18 oed neu'n hŷn ysgrifennu neu ddiweddaru Ewyllys syml yn bersonol, ar-lein neu dros y ffôn. Ar gyfer Ewyllysiau mwy cymhleth, bydd eich cyfreithiwr yn trafod unrhyw gostau ychwanegol ymlaen llaw.

Pam mae cael Ewyllys gyfredol mor bwysig:

1. Mae'n sicrhau bod eich dymuniadau'n cael eu cyflawni.
2. Mae'n ei gwneud hi'n haws i'ch ffrindiau a'ch teulu.
3. Mae'n caniatáu i chi gefnogi achosion sy'n bwysig i chi.

Mae pob rhodd yn bwysig

Mae pob rhodd a gawn yn helpu i bweru ein hymchwil arloesol. Ar hyn o bryd, rydym yn darganfod a allai deallusrwydd artiffisial, anadlydd syml, a hyd yn oed ffôn clyfar helpu i ddarganfod canser yn gynt. **Gallai arloesiadau fel y rhain achub miliynau o fywydau yn y dyfodol.**



Mynd i'r afael â chanserau prin

“Rwy'n arwain DETERMINE, sef treial clinigol i gyflymu datblygiad opsiynau triniaeth newydd ar gyfer pobl â chanser prin.

Canser prin yw un sy'n effeithio ar nifer fach o bobl, ond ar ôl i chi eu hadio i gyd at ei gilydd, maent yn cyfrif am 24% o bob diagnosis o ganser yn Ewrop a'r DU – mae hynny oddeutu 1 o bob 4 canser. Felly, mae gan y treial hwn y potensial i helpu llawer o bobl.


Diolch i bobl fel chi, mae'r ymchwil hwn yn bosib. Mae Rhoddion mewn Ewyllysiau yn ariannu oddeutu traean o waith Cancer Research UK, sy'n cynnwys ymchwil sy'n newid bywydau, fel y treial hwn.

Bydd bron i 1 o bob 2 o bobl yn cael canser yn ystod eu hoes.* Ond diolch i ymchwil, mae cyfraddau goroesi canser yn y DU wedi dyblu dros y 50 mlynedd diwethaf. Po fwyaf o ymchwil a ariannwn, y mwyaf o gynnydd y byddwn yn parhau i'w wneud.

Gyda'ch rhodd i gefnogi ymchwil canser sy'n newid bywydau, a'n hymroddiad i ddod o hyd i ffyrdd gwell o atal, canfod a thrin y clefyd, gyda'n gilydd byddwn yn creu dyfodol sy'n rhydd rhag ofn canser."



Dr Matthew Krebs
Prif Ymchwilydd treial DETERMINE, Cancer Research UK, Prifysgol Manceinion



*cruk.org/lifetimerisk

Sut i ddefnyddio ein Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau

1. Dewiswch ysgrifennu neu ddiweddaru eich Ewyllys gydag un o'n partneriaid cyfreithiol dibynadwy yn eich ardal leol, naill ai:

   
   Yn bersonol gyda'ch gweithiwr cyfreithiol proffesiynol lleol, drwy fynd i **cruk.org/find-legal-professional**

   
   Ar y ffôn gyda'n partner dibynadwy Co-op Legal Services, drwy **ffonio 0330 606 9627**

   
   Ar-lein gyda Farewill neu Wills by Brodies, drwy fynd i **cruk.org/will-writing**

2. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth cyn eich apwyntiad, ewch i **cruk.org/will-writing**

3. Ysgrifennwch neu diweddarwch eich Ewyllys â chymorth gan eich partner cyfreithiol dewisol. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn dewis cynnwys rhodd yn eu Hewyllys i Cancer Research UK, a gobeithiwn y gwnewch chithau hefyd.

4. Ar ôl i chi ysgrifennu neu ddiweddaru eich Ewyllys, byddwn yn talu'r cyfreithiwr yn uniongyrchol am eu hamser fel nad oes rhaid i chi wneud hynny.

Cwestiynau cyffredin

A all unrhyw un ddefnyddio'r Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau?

Gall unrhyw un sy'n 18 oed neu'n hŷn ddefnyddio'r gwasanaeth i ddiogelu eu dymuniadau a helpu i drechu canser. Mae eich defnydd o'r Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau yn amodol ar delerau ac amodau.

Sut bydd fy rhodd yn cael ei defnyddio?

Mae Rhoddion mewn Ewyllysiau yn helpu i ariannu ein hymchwil o safon fyd-eang i atal, canfod a thrin canser drwy waith mwy na 6,000 o wyddonwyr, meddygon a nyrsys. Rydym hefyd yn defnyddio tystiolaeth, craffu a'n dylanwad i lunio a llywio newidiadau polisi llywodraeth, a fydd yn arwain at fesurau, profion a thriniaethau atal canser gwell.

Pam mae Cancer Research UK yn talu am Ewyllysiau?

Rydym yn talu i'n cefnogwyr ysgrifennu neu ddiweddaru Ewyllys syml, yn y gobaith y byddant, yn gyfnewid, yn dewis cefnogi ein gwaith i drechu canser drwy addo rhodd.

Mae gen i Ewyllys eisoes. A allaf roi rhodd i Cancer Research UK o hyd?

Mae'n syniad da adolygu eich Ewyllys i wneud yn siŵr ei bod yn dal i adlewyrchu eich dymuniadau. Mae gwneud addewid yn welliant syml, y gall eich cyfreithiwr ei wneud ar eich rhan. Cofiwch gadw copi o'ch Ewyllys eich hun bob amser, yn enwedig os byddwch yn ei diwygio.

I ddysgu rhagor am addo rhodd, ewch i **cruk.org/giftsinwills**

Beth yw'r gwahanol fathau o roddion y g allaf eu gadael yn fy Ewyllys?

Ar ôl gofalu am eich anwyliaid, efallai y byddwch am gefnogi achos sy'n agos at eich calon.

Dyma'r mathau mwyaf cyffredin o roddion y mae pobl yn eu gadael i ni yn eu Hewyllys:



Cyfran ganrannol

Rydych chi'n dewis cyfran ganrannol o'ch ystâd i'w rhoi i elusen. Y math hwn o rodd yw'r mwyaf gwerthfawr, oherwydd gall wrthsefyll chwyddiant.



Cyfandaliad

Swm sefydlog a all golli ei werth dros amser wrth i gostau gynyddu.




Rhodd benodol

Eitem benodol, megis car, gemwaith neu eiddo.

Mae eich defnydd o'n Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau yn amodol ar delerau ac amodau, y gallwch eu darllen yn **cruk.org/will-writing-terms** neu sganiwch y cod QR.

Eiliad gyda Jo

Defnyddiodd Jo ein Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau yn 2016, a phenderfynodd adael rhodd i Cancer Research UK.



"Rwy'n angerddol am helpu i drechu canser, a gobeithio y bydd fy rhodd cymynrodd yn helpu i ddod o hyd i ffordd o drin pobl ledled y byd."

Jo Williamson, yn gadael etifeddiaeth o fywydau hirach, gwell

Beth wnaeth i chi fod eisiau gadael rhodd i Cancer Research UK?

"Cafodd fy ngwraig Sue ddiagnosis o ganser prin iawn ym 1993. Dywedwyd wrthym fod ganddi chwe mis i fyw. Yn ffodus, roedd Sue yn gallu cael triniaeth a byw bywyd normal. Yn anffodus, bu farw yn 2003."

Oedd hi'n hawdd defnyddio'r gwasanaeth?

“Roedd yn syml iawn ac yn uniongyrchol. Roedd fy nghyfreithiwr yn ardderchog ac yn hawdd iawn mynd ato. Atebodd Cancer Research UK fy holl gwestiynau. Roedd yn teimlo fel bod pawb ar eu hennill: roeddwn yn gallu ysgrifennu fy Ewyllys am ddim a chefnogi ymchwil.”



Sut gallai eich cymynrodd helpu i ysgogi darganfyddiadau

Gallai £1,800

brynu meddalwedd delweddu y mae ein gwyddonwyr yn ei defnyddio i ffilmio celloedd mewn amser real, gan helpu i brofi triniaethau achub bywyd posib a chanfod cyffuriau canser addawol newydd.

Gallai £8,500

brynu peiriant PCR, sy'n gweithio fel llungopïwr moleciwlaidd i helpu i wneud 80,000 o gopïau o ddarn o DNA mewn un eiliad yn unig.

Gallai £250,000

brynu darn cymhleth o offer labordy o'r enw sbectromedr màs pedrypol triphlyg, a all ddweud mwy wrthym am sut mae'r cyffuriau ymladd canser y mae ein gwyddonwyr yn eu datblygu yn gweithredu yn y corff.

Gallai 20% o ystâd £300,000

brynu peiriant dilyniannu DNA, sy'n caniatáu i'n gwyddonwyr ddadansoddi llawer iawn o DNA yn gyflym iawn, gan eu helpu i ddysgu mwy am ganser, yn gyflymach.

Gallai ychydig dros 5% o ystâd o £600,000

brynu gwn genynnau – teclyn uwch dechnoleg mae ein gwyddonwyr yn ei ddefnyddio i ddysgu mwy am wendidau canser.

Rydym yn cynnal ymchwil o safon fyd-eang i fwy na 200 o fathau o ganser drwy waith mwy na 6,000 o wyddonwyr, meddygon a nyrsys.

Ysgrifennwch neu ddiweddarwch eich Ewyllys heddiw

Am ragor o wybodaeth am ein Gwasanaeth Ysgrifennu Ewyllysiau:

Ffoniwch: **0300 123 7733**
(8am-6pm, dydd Llun i ddydd Gwener)

E-bostiwch: **supporter.services@cancer.org.uk**

Ewch i: **cruk.org/will-writing**

Cyfeiriad post: **Cancer Research UK**
Blwch Post 1561
Rhydychen
OX4 9GZ

Os oes gennych gwestiynau am ganser neu os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, rydym yma i helpu.

Am wybodaeth ddibynadwy, hawdd ei deall am ganser, ewch i **cruk.org/about-cancer**

I siarad ag un o'n nyrsys canser arbenigol, ffoniwch **0808 800 4040** (9am-5pm, dydd Llun i ddydd Gwener)

I rannu eich profiad a chael cymorth, ymunwch â'n cymuned ar-lein wedi'i chymedroli'n llawn yn **cancerchat.org.uk**

Os hoffech newid y ffordd rydym yn cyfathrebu â chi am ein harloesiadau, ymgyrchoedd diweddaraf a sut y gallwch gefnogi ein gwaith achub bywydau, cysylltwch â ni ar **0300 123 3379** (8am-6pm, dydd Llun i ddydd Gwener) neu e-bostiwch **preferences@cancer.org.uk.** Darllenwch ein Polisi Preifatrwydd yn **cruk.org/privacy**

100% FSC www.fsc.org RECYCLED Paper made from recycled material FSC® C007810

Registered with Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

Cyfeiriad Cofrestredig: 2 Redman Place, Llundain E20 1JQ. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1089464), Yr Alban (SC041666), Ynys Manaw (1103), a Jersey (247). Cwmni cyfyngedig drwy warant cofrestredig yng Nghymru a Lloegr (4325234) ac Ynys Manaw (5713F).

WWSSUPBOOKWAL